O F F E R Y N A U   S T A T U D O L

# 202X Rhif xxx (C.xx)

# GALLUEDD MEDDYLIOL

## Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019 Rheoliadau (Darpariaethau Cychwyn, Trosiannol ac Arbedion)

*Gwnaed* - - - - *202X*

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y Rheoliadau canlynol wrth weithredu'r grymoedd a roddir gan adran 6(3) a (5) o Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019(**a**).

## RHAN 1

### RHAGARWEINIOL

**Dyfynneb**

**1.** Gellir cyfeirio 'r Rheoliadau hyn yn gallu cael eu dyfynnu fel Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019 Rheoliadau (Darpariaethau Cychwyn, Trosiannol ac Arbedion).

**Dehongliad**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae'r "Ddeddf" yn golygu Deddf Galluedd Meddyliol 2005(**b**);

mae "Deddf 2019" yn golygu Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019;

Mae'r "diwrnod gweithredu" yn golygu [    ].

## RHAN 2

### CYCHWYN

**Deddf 2019 yn dod i rym**

**3.**—(1) Ac eithrio ar gyfer y darpariaethau wedi'u heithrio, mae Deddf 2019 yn dod i rym ar yr amod nad yw mewn grym yn barod yn unol â pharagraffau (3) a (4)

(2) Y darpariaethau a eithrir yw adran 1(4) o, ac Atodlen 1 i, Ddeddf 2019 cyn belled ag y bônt yn berthynol i'r darpariaethau canlynol o Atodlen AA1 i'r Ddeddf—

(a) ym mharagraff 17, is-baragraff (b) a'r "neu" yn syth o'i flaen;

(b) paragraff 19:

---

(**a**) 2019 c.18.
(**b**) 2005 c.9.

(c) paragraff 20:

(d) ym mharagraff 21, is-baragraffau (5), (6) a (10)(a);

(e) ym mharagraff 22, is-baragraff (3);

(f) ym mharagraff 23(1), paragraff (a) ac ym mharagraff (b), "fel arall,";

(g) Ym mharagraff 33, is-baragraff (b) a'r "neu" yn syth o'i flaen;

(h) paragraff 35:

(i) paragraff 36:

(j) ym mharagraff 38, is-baragraff (1) (ar yr amod bod yr is-baragraff hwnnw'n gymwys i reolwyr cartrefi gofal) ac is-baragraff (9).

(3) Ac eithrio fel y manylwyd ym mharagraff (4), mae Deddf 2019 yn dod i rym, ar y diwrnod gweithredu.

(4) Mae'r darpariaethau canlynol o Ddeddf 2019 yn dod i rym ar [ ]—

(a) adran 1(4) ac Atodlen 1 cyhyd â'u bod yn berthynol i baragraffau 39 a 40(1)(a) a (b),(2), (5) a (6) o Atodlen AA1 i'r Ddeddf; ac

(b) at ddiben gwneud rheoliadau o dan adran 35(2) o'r Ddeddf, paragraff 3 o Atodlen 2, paragraff 1 o'r Atodlen honno cyn belled â'i fod yn berthynol i'r paragraff hwnnw ac adran 5(6) cyn belled â'i fod yn berthynol i'r ddau baragraff hynny.

# RHAN 3

## DARPARIAETHAU TROSIANNOL

**Dehongli'r Rhan**

**4.** Mae gan dermau sy'n cael eu defnyddio yn y Rhan hon yr ystyr a ddygir ganddynt yn y Ddeddf fel y mae mewn grym cyn y diwrnod gweithredu.

**Awdurdodiadau safonol mewn grym yn syth cyn y diwrnod gweithredu.**

**5.** Bydd awdurdodiad safonol sydd mewn grym yn syth cyn y diwrnod gweithredu'n parhau mewn grym ar ôl y diwrnod hwnnw hyd y cyntaf i ddigwydd o—

(a) ddiwedd y cyfnod y mae'r awdurdodiad mewn grym ar ei gyfer;

(b) y corff goruchwyliol yn terfynu'r awdurdodiad yn unol â pharagraff 117 o Atodlen A1 i'r Ddeddf; neu

(c) unrhyw newid yn lle cadw'r unigolyn perthnasol.

**Awdurdodiadau safonol yn cael eu hatal yn syth cyn y diwrnod gweithredu**

**6.**—(1) Lle mae awdurdodiad safonol yn cael ei atal o dan baragraff 93 o Atodlen A1 i'r Ddeddf yn syth cyn y diwrnod gweithredu, mae'r ataliad yn parhau mewn grym ar neu ar ôl y diwrnod hwnnw.

(2) Lle rhoddir hysbysiad o dan baragraff 94 o Atodlen A1 (fel yr arbedwyd gan reoliad 9(4) ynglŷn ag atal awdurdodiad safonol y cyfeirir ato ym mharagraff (1), mae'r awdurdodiad safonol i'w drin megis yn parhau mewn grym ar ac ar ôl y diwrnod gweithredu at ddibenion rheoliad 5.

**Ceisiadau am awdurdodiadau safonol lle nad oes penderfyniad wedi cael ei wneud erbyn y diwrnod gweithredu**

**7.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys ynghylch cais am awdurdodiad safonol a wneir cyn y diwrnod gweithredu lle na wnaethpwyd penderfyniad erbyn y diwrnod hwnnw yn ei gylch.

(2) Mae'r cais hwn i'w drin ar neu ar ôl y diwrnod gweithredu fel cais am drefniadau i'w hawdurdodi mewn perthynas ag unigolyn sy'n derbyn gofal yn unol ag Atodlen AA1 i'r Ddeddf.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys lle nad yw'r corff goruchwyliol y cafodd y cais ei wneud iddo yn gorff cyfrifol at ddiben Atodlen AA1 i'r Ddeddf.

(4) Mae'n rhaid i'r corff goruchwyliol roi pob gwybodaeth angenrheidiol i'r corff cyfrifol er mwyn i'r corff cyfrifol ddelio â'r cais.

**Awdurdodiadau brys mewn grym yn syth cyn y diwrnod gweithredu**

**8.**—(1) Mae awdurdodiad brys sydd mewn grym yn syth cyn y diwrnod gweithredu'n parhau mewn grym ar ac ar ôl y diwrnod hwnnw hyd ddiwedd y cyfnod y mae'r awdurdodiad mewn grym ar ei gyfer.

(2) Mae'r cyfeiriad at awdurdodiad brys ym mharagraff (1) yn cynnwys cyfeiriad at awdurdodiad brys—

(a) sydd wedi'i estyn cyn y diwrnod gweithredu yn unol â pharagraff 77 o Atodlen A1 i'r Ddeddf;

(b) ynglŷn a'r hyn mae'r awdurdod rheoli wedi gwneud cais am estyniad cyn y diwrnod hwnnw a chaniateir y cais hwnnw ar neu ar ôl y diwrnod hwnnw.

# RHAN 4

## DARPARIAETHAU ARBEDION

**9.**—(1) Paragraffau (2) a (4) yn gymwys er rheoliad 3.

(2) Mae’r Ddeddf a Deddf Iechyd Meddwl 2007(**a**) yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â—

(a) awdurdodiad safonol yn parhau mewn grym yn rhinwedd rheoliad 5 neu 6(2); ac

(b) awdurdodiad brys yn parhau mewn grym trwy rinwedd rheoliad 8(1),

fel pe na byddai'r diwygiadau a wnaed i'r Deddfau hynny gan Atodlen 2 i Ddeddf 2019 mewn grym.

(3) Mae paragraff (2) yn gymwys hyd y bydd yr awdurdodiadau hynny yn peidio â bod mewn grym o dan y rheoliadau hynny.

(4) Mae paragraffau 94 i 96 o Atodlen A1 i'r Ddeddf yn gymwys mewn perthynas ag awdurdodiad safonol ynghylch yr hyn mae ataliad yn parhau mewn grym trwy rinwedd rheoliad 6(1).

*Enw*
Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol
Dyddiad — Adran ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dod â darpariaethau Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019 (c.18) nad ydynt mewn grym yn barod, i rym ar [ ] a [ ] chyn belled nad ydynt yn ddarpariaethau eithriedig o dan reoliad 3(2).

Maent hefyd yn gwneud darpariaeth drosiannol ac arbedion mewn cysylltiad ag awdurdodiadau safonol ac awdurdodiadau brys o dan Atodlen A1 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (c.9) sydd

(**a**) 2007 c.12.

naill ai mewn grym neu wedi'u hatal yn union cyn [ ] neu y ceisiwyd amdanynt ond heb eu caniatáu yn syth cyn y diwrnod hwnnw.